# Cyflwyniad i Wasanaethau Aeliau



### Yn gryno

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno dysgu'r sgiliau a'r technegau sy'n rhan o siapio aeliau a darparu'r gwasanaeth poblogaidd hwn i gleientiaid. Bydd dysgwyr yn dod i ddeall asesu siâp a chyfrannau aeliau mewn perthynas â nodweddion wyneb, a sut i baratoi a darparu gwasanaethau siapio aeliau.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...Dechreuwyr heb unrhyw wybodaeth flaenorol am wasanaethau aeliau.

### Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs yn ymdrin â thacluso, siapio ac ail-lunio aeliau, offer a chyfarpar, ymgynghori â chleientiaid, hylendid ac iechyd a diogelwch, ac ôl-ofal.

Asesir y cwrs trwy bortffolio o dystiolaeth, sy'n cynnwys gwaith ysgrifenedig a chofnodion cleientiaid, yn ogystal ag asesiad ymarferol o waith gyda chleientiaid. Mae cadarnhau

cleientiaid i weithio gyda nhw, a chyflwyniad personol wrth weithio, yn rhan o'r meini prawf asesu ar gyfer y cwrs hwn.

## Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad penodol.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd dysgwyr yn cael gwybod am becyn bach o offer ar ddechrau'r cwrs.